Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfarfod Bwrdd
4 Medi 2013

Teitl y Papur	**Dangosfwrdd Corfforaethol – Adroddiad Cyntaf**
Cyfeirnod y Papur:	**Papur NRW B (O) 29.13**
Noddwyd y Papur Gan: **Awdur y Papur Yw:**	**Ceri Davies** **John Hogg**

Pwrpas y Papur:	Ystyried adroddiad cyntaf y Dangosfwrdd Corfforaethol ar gyfer mis Ebrill i fis Gorffennaf 2013/14.
Argymhelliad:	Gofynnir i'r Bwrdd: • gadarnhau'r perfformiad a roddir yn y Dangosfwrdd Corfforaethol fel y gellir darparu adroddiad arno i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd. • Ystyried a ddylai is-grŵp y Bwrdd sy'n edrych ar dargedau ar gyfer y Cynllun Corfforaethol gwrdd yn gynt i archwilio uchelgais y targedau presennol

Effaith:	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Mae'r Dangosfwrdd Corfforaethol yn dangos y cynnydd gyda'n blaenoriaethau am y flwyddyn gyntaf ar gyfer yr amgylchedd **Effaith ar yr Economi**: Mae'r Dangosfwrdd Corfforaethol yn dangos y cynnydd gyda'n blaenoriaethau am y flwyddyn gyntaf i gefnogi'r economi **Effaith ar y Gymuned**: Mae'r Dangosfwrdd Corfforaethol yn dangos y cynnydd gyda'n blaenoriaethau am y flwyddyn gyntaf i gefnogi cymunedau **Effaith ar Wybodaeth**: Mae'r Dangosfwrdd Corfforaethol yn darparu tystiolaeth i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y sefydliad a'i waith

Mater dan sylw

1. Mae’r Dangosfwrdd Corfforaethol yn dangos ein perfformiad yn cyflawni blaenoriaethau’r Cynllun Busnes a’r Llythyr Cylch Gwaith. Mae’r papur hwn yn darparu gwybodaeth am berfformiad ar gyfer mis Ebrill i fis Gorffennaf 2013.

Cefndir

2. Cafodd y Dangosfwrdd Corfforaethol a’r broses adrodd eu cymeradwyo i’w defnyddio i fonitro perfformiad yn erbyn Cynllun Busnes 2013/14 gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 9 Gorffennaf 2013. Bydd Cynllun Corfforaethol 2014-17 yn datblygu Fframwaith Perfformiad ar wahân gan ddefnyddio profiad Dangosfwrdd Corfforaethol y flwyddyn gyntaf.

3. Mae’r Dangosfwrdd yn dangos gwybodaeth am berfformiad ar gyfer 46 o fesurau â blaenoriaeth. Yn atodiad 2, rydym yn darparu 10 adroddiad cryno, a fydd yn manylu ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni a beth sydd i'w wneud eto.

4. Mae’r Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi craffu ar berfformiad y 46 mesur.

Cynigion a Chamau Nesaf

5. Gofynnir i’r Bwrdd nodi'r perfformiad ar draws y 46 mesur:

- 30 gwyrdd;
- 14 ambr (bron (o fewn 10%) ar y targed);
- 2 goch (sy'n dangos nad ydym yn y sefyllfa lle roeddem wedi bwriadu bod).

6. Gofynnir i’r Bwrdd gadarnhau’r perfformiad fel y’i rhoddir yn y Dangosfwrdd Corfforaethol fel y gellir darparu adroddiad arno i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd.

7. Mae’r Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi darparu adroddiadau cywir a hefyd wedi adolygu a herio'n gadarn wrth gwblhau'r dangosfwrdd. Wrth gyflawni ei rôl graffu, mae’r Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi ystyried a oes angen rhagor o uchelgais mewn rhai o’r targedau. Efallai fod rhai targedau wedi canolbwyntio ar barhad busnes. Felly, gofynnir i’r Bwrdd ystyried a ddylai’r is-grŵp sy'n edrych ar dargedau ar gyfer y Cynllun Corfforaethol gwrdd yn gynt i archwilio uchelgais y targedau presennol.

Y Risgiau

8. Heb i’n perfformiad fod yn destun craffu cadarn, y mae perygl na fyddem yn cyflawni blaenoriaethau ein cynllun busnes a fyddai’n arwain at niweidio’n henw da.

Goblygiadau Ariannol

9. Nid oes goblygiadau ariannol sylweddol wrth ddarparu’r adroddiad perfformiad hwn.

Materion Cyfreithiol a Chydymffurfiad

10. Mae gan y Bwrdd ddyletswydd gyfreithiol i oruchwylio a chyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae’n atebol i Lywodraeth Cymru.

Cyfathrebu

11. Rhaid i’r Dangosfwrdd Corfforaethol gael ei gyflwyno i’r Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd.

12. Bydd copi o berfformiad y Dangosfwrdd Corfforaethol yn cael ei roi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru er gwybodaeth i’r cyhoedd.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (EqIA)

13. Amherthnasol

Mynegai’r Atodiadau

Atodiad 1: Dangosfwrdd Corfforaethol (Ebrill - Gorffennaf 2013)
Atodiad 2: Adroddiadau Cryno’r Dangosfwrdd Corfforaethol